

Cofnodion Heb ei Gadarnhau Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
10 Medi 2026, rhwng 10:00 - 12:35
Cynhaliwyd yng Nghwr y Ddinas 2 a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol:		
Clare Jenkins	(CJ)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Lauranne Cullen	(LC)	Cynrychiolydd Llais (Yn Arsylwi)
Karen Fitzgibbon	(KF)	Pennaeth Pobl a Gweithrediadau Datblygu Sefydliadol (ar gyfer eitem 5.2)
Tom Fowler	(TF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio (o 11:30)
Sophie Fuller	(SF)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Corfforaethol a Chymorth Busnes, Perfformiad a Gwella'r GIG (ar gyfer Eitem 7)
Wayne Jepson	(WJ)	Pennaeth Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithio (ar gyfer eitem 3.2)
Ilona Johnson	(IJ)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 4)
Louise Mann	(LM)	Cyfarwyddwr Diogelu (ar gyfer Eitem 5.3)
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Cenedlaethol (gadawodd am 11:30)
Zoe Pietrzak	(ZP)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cyllid a Pherfformiad
Alexander Rees	(AR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
Reanne Reffell	(RR)	Rheolwr Llywodraethu a Pholisi'r Bwrdd
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Sikha de Souza	(SdS)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd - Sgrinio
Emily van de Venter	(EvdV)	Ymgynghorydd Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 4)
Ymddiheuriadau		
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil

Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Jo Kondra	(JK)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		

Rhan A

QSIC 2026.09.10/1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i sesiwn gyhoeddus cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

Wrth nodi'r ymddiheuriadau, atgoffodd CJ y Pwyllgor mai'r cyfarfod hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor i SG. Er nad oedd y Pwyllgor yn gallu diolch i SG yn bersonol, mynegodd CJ ei diolch ei hun a diolch y Pwyllgor am y cyfraniad a'r profiad a gyfrannodd SG i'r Pwyllgor dros nifer o flynyddoedd.

QSIC 2026.09.10/2 Datganiad o Fuddiant

Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

QSIC 2026.09.10/3 Eitemau i'w cymeradwyo

QSIC 2026.09.10/3.1 Cofnodion a chofnod o gamau gweithredu

Ystyriodd a **chymeradwyodd** y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2026 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

Cymeradwyodd y Pwyllgor gau pedwar cam gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu.

QSIC 2026.09.10/3.2 Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2025-26

Cyflwynodd AC yr Adroddiad Dyletswydd Ansawdd blynyddol, gan egluro ei fod wedi'i gynhyrchu i fodloni gofynion statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a'i fod wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus.

Amlinellodd WJ y newidiadau a wnaed yn dilyn adborth mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd defnyddio Microsoft Sway wedi lleihau hyd yr Adroddiad yn sylweddol, roedd nifer yr astudiaethau achos hefyd wedi'i leihau, ac roedd gan yr Adroddiad ffocws cryfach ar hygyrchedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd adborth o arolwg Amser i Siarad a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill GIG Cymru wedi llywio'r dull diwygiedig, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi mynegi dewis am yr Adroddiad byrrach wedi'i ategu gan gynnwys digidol. Nododd WJ hefyd gynlluniau i wella'r Adroddiad ymhellach trwy gynnwys elfennau digidol a fideo ychwanegol yn y blynyddoedd dilynol.

Croesawodd y Pwyllgor y fformat diwygiedig a'r dull seiliedig ar dystiolaeth a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan y cyhoedd. Awgrymasant fwy o gysondeb yn hyd a chyflwyniad astudiaethau achos er mwyn rhoi pwyslais mwy cytbwys ar draws pynciau a gwella darllenadwyedd. Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd cadw fformatau amgen ochr yn ochr â fersiwn Sway i sicrhau hygyrchedd i bobl â nam ar eu golwg neu eu clyw a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Gofynasant hefyd i adroddiadau yn y dyfodol nodi'n glir ble roedd adborth wedi'i dderbyn a ble roedd gwelliannau ar y gweill, gan ddangos bod pryderon wedi'u cydnabod a'u bod yn cael sylw.

Croesawodd y Pwyllgor hefyd y potensial i ddefnyddio dolenni o fewn adroddiad Sway i ddarparu gwybodaeth bellach heb gynyddu ei hyd cyffredinol ac argymhellodd y dylai gweithgaredd ymgysylltu yn y dyfodol geisio adborth ar hygyrchedd ac effeithiolrwydd y fformat.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Gwnaeth sylwadau** ar a **chymeradwyo**'r Adroddiad Ansawdd Blynnyddol drafft 2025-2026 (i'w gyhoeddi yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd).
- **Nododd** gynnydd pellach yr adroddiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd drwy Adroddiad Cadeiryddion y Pwyllgor i'r Bwrdd.

QSIC 2026.09.10/3.3

Polisiâu a Gweithdrefnau i'w cymeradwyo

Cyflwynodd AC y Polisi Atal, gan nodi ei fod wedi cael ei adolygu, yr ymgynghorwyd arno a'i gryfhau i gefnogi lechyd Cyhoeddus Cymru i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch. Dywedodd AC fod y Polisi wedi cael ei ystyried gan y Grŵp Diogelu a byddai rhaglen hyfforddi Atal genedlaethol yn ei gefnogi i ategu ei weithredu'n ymarferol.

Trafododd y Pwyllgor y Polisi ac ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch ei gynnwys. Fodd bynnag, ailadroddodd yr aelodau bryderon ehangach ynghylch cyflwyno polisiâu a gweithdrefnau o fewn papurau'r Pwyllgor, a'r gwahaniaeth rhyngddynt, gan nodi bod y ddogfennaeth gysylltiedig i bob golwg yn canolbwyntio mwy ar gynnwys gweithdrefnol na pholisi.

Esboniodd LB fod yr Asesiad o'r Effaith ar Cydraddoldeb lechyd cysylltiedig yn cwmpasu'r Polisi a'r weithdrefn gysylltiedig, er mai dim ond y Polisi oedd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor. Nododd fod gwaith yn parhau i adolygu a symleiddio templedi a chanllawiau sefydliadol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi Atal.

QSIC 2026.09.10/4

Diweddariad ar Raglenni lechyd y Boblogaeth

Cyflwynodd JM ddiweddariad ar adolygiad rhaglenni gwella lechyd y boblogaeth lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr adolygiad wedi asesu a oedd y rhaglenni wedi'u dylunio a'u cyflwyno i wneud y mwyaf o'u heffaith ar lechyd y boblogaeth, atal ac anghydraddoldebau lechyd. Roedd wedi datblygu'n broses gwella a newid ehangach, gan nodi cwmpas ar draws yr holl raglenni i gryfhau dylunio, llywodraethu, gweithio mewn partneriaeth, gwerthuso a thegwch.

Ni nodwyd unrhyw raglen ar gyfer rhoi'r gorau iddi; fodd bynnag, roedd angen ailgynllunio nifer ohonynt yn sylweddol. Roedd y rhain yn cynnwys alinio rhaglenni pwysau iach â llwybr gordewdra digidol gwerth £8 miliwn a ariennir gan Innovate UK, ehangu'r gefnogaeth a ddarperir drwy Gymru Iach ar Waith, a gwella rhaglenni rheoli tybaco, lle dangosodd tystiolaeth ganlyniadau cryf ar draws gwahanol grwpiau poblogaeth a lefelau amddifadedd.

Hefyd, dywedodd JM fod gwaith ar y gweill i ddatblygu fframwaith effaith a gwerth i ddangos yn gliriach sut roedd gweithgaredd y rhaglen yn cyfrannu at ganlyniadau i bobl Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Croesawodd yr adroddiad fel cam cyntaf cadarnhaol wrth gryfhau sicrwydd ynghylch rhaglenni iechyd y boblogaeth a gofynnodd am eglurhad ar y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a ddylai rhaglen barhau neu ddod i ben. Esboniodd JM fod rhaglenni'n cael eu hasesu yn erbyn anghenion y boblogaeth, tystiolaeth o effeithiolrwydd, aliniad â thystiolaeth gyfredol a blaenoriaethau strategol, ac a allai dulliau amgen gyflawni canlyniadau gwell.
- Pwysleisiodd bwysigrwydd dangos effaith rhaglenni y tu hwnt i fesurau gweithgaredd a chroesawodd ddatblygiad fframwaith cadwyn werth sy'n cysylltu mewnbynnau rhaglenni, allbynnau, newidiadau i systemau a chanlyniadau poblogaeth. Cefnogodd waith pellach i ddangos tystiolaeth o gyfraniad rhaglenni at ganlyniadau tymor hwy.
- Tynnodd sylw at werth cyd-gynhyrchu, adolygiadau gan gymheiriaid allanol a gweithio mewn partneriaeth, ac anogodd rannu dysgu'n gyson ar draws rhaglenni. Awgrymodd yr aelodau y dylai adroddiadau yn y dyfodol ddarparu mwy o welededd i theorïau newid rhaglenni a'r mesurau a ddefnyddir i asesu cynnydd ac effaith.
- Nododd fod y broses adolygu wedi ysgogi ystyriaeth o lywodraethu rhaglenni, dysgu sefydliadol a chydweithio traws-gyfarwyddiaeth. Wrth drafod gwerthuso, cafodd yr aelodau sicrwydd bod cydweithio â chydweithwyr Ymchwil a Datblygu wedi'i gryfhau i gefnogi gwerthuso rhaglenni a gwelliant parhaus.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Cymerodd sicrwydd** bod ymrwymiad 2025 i adolygu a gwella prif raglenni gwella iechyd wedi trosi'n newid rhaglenni a systemau perthnasol;
- **Nododd** y dull sy'n dod i'r amlwg o ddangos effaith a gwerth sy'n seiliedig ar gyfraniadau; a
- **Chymeradwyodd** y rhaglen adolygu dreigl, gymesur arfaethedig a'r blaenoriaethau nesaf.
- **Cytunodd** i gael adroddiad pellach ar ddysgu Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd.

QSIC 2026.09.10/5	Eitemau ar gyfer Sicrwydd
QSIC 2026.09.10/5.1	Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd Ch1

Rhoddodd AC drosolwg o'r Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Ansawdd ar gyfer Chwarter 1, gan dynnu sylw'r Pwyllgor at feysydd penodol i'w hystyried:

Gwrando ar Bobl (LtP), Ch1

Crynhodd AC yr adran Gwrando ar Bobl (LtP,) a oedd yn ymdrin â'r digwyddiadau, y cwynion a'r pryderon a adroddwyd ac a weithredwyd arnynt yn ystod Chwarter 1. Nododd AC yr enw newydd i'r adran, yn unol â'r rheoliadau newydd 'Gwrando ar Bobl' a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2026 ac a amlygodd:

- 513 o ddigwyddiadau yn Chwarter 1.
- Nid oedd unrhyw Ddigwyddiadau i'w Hadrodd yn Genedlaethol nac unrhyw Adroddiadau Rhybudd Cynnar. Roedd 1 achos Dyletswydd Gonestrwydd.
- Adroddwyd am 2 ddigwyddiad niwed cymedrol.
- Roedd perfformiad cau digwyddiadau wedi gwella yn Chwarter 1; roedd 27 o ddigwyddiadau hwyr y tu hwnt i'r targed o 30 niwrnod gwaith.

Hysbysodd SdS y Pwyllgor fod gwaith helaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth wedi canolbwyntio ar wella amserlenni adrodd, gan gyfrannu at y ffigurau gwell a adroddwyd. Roedd gwaith pellach wedi'i wneud i gwblhau camau gweithredu, casglu dysgu, a gwella ansawdd adrodd ar ddigwyddiadau.

Profiad Cleifion/Defnyddwyr Gwasanaeth a Rheoli Rhybuddion a Hysbysiadau Diogelwch, Ch1

Tynnodd AC sylw at y canlynol:

- Cofnodwyd un deg naw o benderfyniadau cynnar, gyda themâu oedd yn achosi pryder yn cynnwys cyfathrebu, canlyniadau profion, agwedd ac ymddygiad staff. Datryswyd pob un ond un o fewn yr amserlen ofynnol: cydnabyddiaeth o fewn pum niwrnod gwaith ac ymateb o fewn 10 niwrnod gwaith.
- Derbyniwyd 8 cwyn ffurfiol, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o wasanaethau sgrinio. Parhaodd perfformiad rheoli cwynion yn dda ar y cyfan.
- Derbyniwyd 133 o ganmoliaethau, y mwyaf cyffredin yn diolch i staff.
- Roedd arolygon profiad SMS wedi cyflawni cyfradd ymateb o 28.5%, sy'n cyfateb i 5,476 o ymatebion. Ymunodd Bron Brawf Cymru â Sgrinio Llygaidd Diabetig Cymru a Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru i ddefnyddio'r system hon ddiwedd mis Awst.
- Derbyniwyd naw ar hugain o rybuddion diogelwch, ac roedd chwech ohonynt yn berthnasol er gwybodaeth yn unig.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnodd a allai adroddiadau yn y dyfodol fapio canmoliaethau ochr yn ochr â chwynion i ddangos lefelau a themâu cymharol yr adborth a dderbyniwyd gan wasanaethau a helpu i nodi meysydd i'w gwella. Cytunodd AC i archwilio dichonoldeb cynnwys y dadansoddiad hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Gofynnodd am sicrwydd nad oedd amseroldeb gwell wedi peryglu ansawdd. Dywedwyd bod gwaith pellach ar reoli ac adrodd ar ddigwyddiadau yn parhau i gefnogi gwelliant parhaus ac olrhain camau gweithredu effeithiol.
- Gofynnodd sut y cafwyd adborth gan gleifion nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau digidol. Dywedodd AC ac SdS fod arolygon pwrpasol

ac argraffedig ar gael mewn rhai clinigau, tra bod rhai gwasanaethau'n darparu llechen i gefnogi cwblhau arolygon.

Gwaith y Grŵp Diogelu Corfforaethol, Ch4

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y Grŵp Diogelu, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Adroddwyd am 40 o ymholiadau diogelu yn ystod Chwarter 1, sy'n dangos gostyngiad bach o Chwarter 4. Nododd y Pwyllgor waith parhaus o fewn Iechyd Rhywiol Cymru i gryfhau hyder a gallu staff i nodi ac ymateb i bryderon diogelu.
- Cyflwynwyd 7 atgyfeiriad Dyletswydd i Adrodd i Awdurdodau Lleol.
- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu Lefel 3 wedi gwella o 64% i 82%; fodd bynnag, roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant Grŵp 2 Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn parhau i fod islaw'r targed.
- Arhosodd tair risg diogelu is-adrannol yr un fath.

Dywedodd SDS fod gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod staff yn cael y lefel briodol o hyfforddiant diogelu a rhoddodd sicrwydd bod fframwaith cydymffurfio hyfforddiant clir ar waith.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnodd am sicrwydd bod y cynnydd mewn ymholiadau diogelu o fewn Iechyd Rhywiol Cymru yn adlewyrchu gwell adnabod ac adrodd ar bryderon diogelu yn hytrach na chynnydd mewn digwyddiadau diogelu. Dywedodd AC fod pob pryder yn cael ei gofnodi a'i fonitro drwy'r modiwl diogelu Datix, gyda chefnogaeth goruchwyliaeth diogelu corfforaethol, cyfarfodydd diogelu dyddiol ac adnoddau diogelu ychwanegol o fewn y gwasanaeth.
- Cwestiynodd a oedd trefniadau ar waith i nodi staff a fethodd dro ar ôl tro â chwblhau hyfforddiant gorfodol. Dywedodd AC fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei monitro drwy brosesau llywodraethu, goruchwyliaeth reoli, trefniadau gwerthuso a gofynion datblygiad cyflog, gan roi sicrwydd bod diffyg cydymffurfiaeth barhaus yn cael ei nodi a'i reoli'n briodol.

Gwaith y Grŵp Corfforaethol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (IPC), Ch4

Rhoddodd AC ddiweddariad ar waith y grŵp Atal a Rheoli Heintiau (IPC) Corfforaethol, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Roedd 15 o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag Atal a Rheoli Heintiau (IPC) wedi cael eu hadrodd yn ystod Chwarter 1.
- Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau Atal a Rheoli Heintiau (IPC) a arweiniodd at niwed cymedrol neu uwch.
- Roedd 10 digwyddiad yn ymwneud â chyswllt â, neu amlygiad i, sylweddau peryglus o fewn Gwasanaethau Heintiau; aseswyd pob un fel digwyddiadau niwed isel neu ddim niwed.
- Roedd chwe risg Atal a Rheoli Heintiau (IPC) yn parhau ar y gofrestr risgiau, gan gynnwys risgiau'n ymwneud â seilwaith ystadau, cyfleusterau dadheintio, capasiti'r gweithlu a safonau glanhau.

- Roedd cyfleusterau dadheintio yn Uned Endosgopi Glan Clwyd yn parhau i fod yn risg barhaus i Sgrinio Coluddion Cymru, ac roedd gwaith yn parhau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid i gefnogi gwelliannau.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- **Nododd** y safonau perfformiad sy'n cael eu cyflawni a'r meysydd i'w gwella, a rheoli risg.
- Cafodd **sicrwydd** bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i sicrhau gwasanaethau diogel, amserol, effeithiol, teg, effeithlon sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

QSIC 2026.09.10/5.2

Adroddiad Blynyddol Brechu Rhag y Ffliw i Staff 2025/26 a Rhagolwg 2026/27

Cyflwynodd KF Adroddiad Blynyddol Ymgyrch Brechu Rhag y Ffliw i Staff a'r rhagolwg ymlaen llaw, gan dynnu sylw at:

- Roedd nifer y staff a gymerodd ran yn y brechiad ffliw wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, roedd perfformiad yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru Gyfan a lefelau sefydliadol blaenorol.
- Roedd heriau allweddol wedi'u nodi gyda'r darparwr iechyd galwedigaethol (Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru), gan gynnwys argaeledd clinigau cyfyngedig, amserlennu anhyblyg a phroblemau ansawdd data.
- Roedd y cynllun talebau wedi cael ei ddefnyddio'n dda, gyda thua 14% o staff yn cael eu brechu drwy'r llwybr hwn, gan ddangos pwysigrwydd opsiynau brechu cyfleus a hygyrch.
- Cytunwyd ar raglen o gamau gweithredu gwella, gan gynnwys trefniadau iechyd galwedigaethol gwell, ehangu'r ddarpariaeth talebau, gwella ymgysylltiad a chyfathrebu staff, cryfhau trefniadau adrodd, ac archwilio modelau cyflawni amgen ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnodd am sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd parhaus y model cyflawni presennol a nododd fod heriau'n parhau er gwaethaf rhai gwelliannau. Dywedodd KF fod modelau cyflwyno amgen yn cael eu harchwilio ar gyfer y blynyddoedd i ddod a nododd fod hygyrchedd yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar y nifer sy'n cyfranogi.
- Mynegodd bryder nad oedd y darparwr presennol wedi darparu'r lefel ofynnol o wasanaeth yn gyson yn y blynyddoedd blaenorol a gofynnodd i'w bryderon gael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd cyn cynllunio ar gyfer Ymgyrch Brechu Rhag y Ffliw y Staff 2027/28.

Cam Gweithredu: CJ

- Trafododd effaith oedi cyn cael brechlyn a phwysigrwydd cael data mwy manwl ynghylch faint o bobl sy'n cael brechlyn i gefnogi gweithgaredd gwella wedi'i dargedu, yn enwedig ymhlith staff rheng flaen.
- Croesawodd y camau gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer yr ymgyrch sydd ar ddod a nododd y gwaith parhaus i wella nifer y bobl sy'n cymryd brechiadau, darparu gwasanaethau a threfniadau monitro.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymerodd **sicrwydd** o adolygiad o ymgyrch brechu rhag y ffliw i staff 2025/26;
- **Nododd** y camau gweithredu a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Busnes ym mis Mai 2026; a
- **Nododd** y cynllun cyflawni arfaethedig ar gyfer ymgyrch 2026/27.

QSIC 2026.09.10/5.3

**Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Diogelu
Cenedlaethol 2025-26 a Rhagolwg 2026-27**

Cyflwynodd LM Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a thynnodd sylw at:

- Ddatblygiad parhaus y rhwydwaith diogelu o gymuned ymarfer i swyddogaeth sicrwydd, perfformiad a gwella gryfach.
- Cwblhau Fframwaith Diogelu GIG Cymru, gan ddarparu goruchwyliaeth genedlaethol well a threfniadau sicrwydd diogelu amser real.
- Cymhlethdod cynyddol materion diogelu a'r gwaith a wneir i gryfhau trefniadau llywodraethu, dysgu a sicrwydd ledled Cymru.
- Datblygiadau allweddol gan gynnwys safonau ansawdd diogelu, metrigau, offer sicrwydd a chanllawiau, gyda blaenoriaethau ar gyfer 2026/27 yn canolbwyntio ar weithredu'r fframwaith diogelu, cyflwyno modiwl diogelu Datix a chryfhau trefniadau sicrwydd cenedlaethol ymhellach.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Nododd ehangder y gwaith a wnaed a'r amlygrwydd cynyddol i ddiogelu o fewn yr agenda ansawdd ehangach.
- Gofynnodd am flaenoriaethau diogelu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cyngorodd LM fod cydweithio agosach rhwng y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a Thîm Diogelu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cryfhau gwydnwch, arbenigedd a threfniadau cymorth sefydliadol.
- Trafododd sut y cafodd dysgu o adolygiadau diogelu ei drosi'n ymarfer rheng flaen. Cydnabu LM fod y dulliau'n amrywio ar draws sefydliadau a dywedodd fod gwaith pellach ar y gweill drwy hyfforddiant, dysgu a fframweithiau ansawdd i wella'r broses o nodi, lledaenu a gwerthuso'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau, digwyddiadau a phryderon proffesiynol.
- Nododd er y gallai fframweithiau a chanllawiau cenedlaethol gefnogi cysondeb, bod sefydliadau unigol yn parhau i fod yn gyfrifol am ymgorffori dysgu a gwelliant yn lleol.
- Nododd enghreifftiau o welliant mewn diogelu o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cryfhau ymholiadau arferol o fewn gwasanaethau sgrinio a mabwysiadu modiwl diogelu Datix. Cydnabu AC gyfraniad sylweddol y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol wrth gefnogi trefniadau diogelu corfforaethol, adolygiadau ôl-weithredol a dysgu sefydliadol ehangach.
- Nodwyd y datblygiad parhaus o ddata diogelu cenedlaethol a threfniadau adrodd, y disgwylir iddynt gryfhau goruchwyliaeth o weithgarwch diogelu, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chefnogi gwelliant ansawdd yn y dyfodol ar draws GIG Cymru.



Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Cymerodd sicrwydd bod arweinyddiaeth system y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn gweithio ar draws y Sefydliad fel y manylir yn yr adroddiad hwn.

Egwyl

QSIC 2026.09.10/5.4 | **Iechyd a Diogelwch**

Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

QSIC 2026.09.10/5.5 | **Cynllunio ar gyfer y Gaeaf / Cynllunio Tymhorol**

Rhoddodd TF ddiweddariad llafar ar drefniadau parodrwydd y sefydliad ar gyfer y gaeaf, gan dynnu sylw at:

- Yn dilyn adolygiad o ddull y flwyddyn flaenorol, cadwyd y grŵp cynllunio gaeaf traws-sefydliadol i gydlynw gweithgaredd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a sicrhau gwelededd a chydlynw gwaith sy'n gysylltiedig â'r gaeaf. Nododd fod rhai rhaglenni, gan gynnwys gwaith sy'n gysylltiedig â bregusrwydd, wedi dod yn rhan annatod o fusnes arferol ac felly nad oedd angen presenoldeb rheolaidd yn y grŵp cynllunio mwyach, er bod trefniadau'n parhau i fod ar waith i uwchgyfeirio materion os oes angen.
- Bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno diweddariad i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar ynghylch ei baratoadau ar gyfer pwysau'r gaeaf. Nododd fod cyfrifoldebau'r sefydliad yn cynnwys cynnal parhad y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a darparu arweinyddiaeth system mewn meysydd megis cyngor Iechyd Cyhoeddus, rhaglenni brechu a chyfathrebu yn ystod y gaeaf. Adroddodd fod y sicrwydd a roddwyd i Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu hyder yng nghyflwr parodrwydd presennol y sefydliad.
- Bod cynllunio ar gyfer cyfathrebu imiwneiddio'r gaeaf ar y gweill a bod cyfleoedd yn cael eu harchwilio i alinio negeseuon brechu ag ymgyrchoedd Iechyd ymddygiadol ac ataliol ehangach. Nododd ymhellach fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgorffori trefniadau uwchgyfeirio ac ymateb Llywodraeth Cymru yn y gaeaf yn ei brosesau cynllunio i gefnogi cyfathrebu a chynghor cyson ar draws y system ehangach.
- Y byddai effeithiolrwydd y dull diwygiedig yn parhau i gael ei adolygu, gan gynnwys ystyried mesurau effaith mwy gwrthrychol. Nododd fod diweddariadau pellach ar weithredu a gwersi a ddysgwyd wedi'u trefnu drwy raglen waith y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod cynllunio ar gyfer y gaeaf yn parhau i fod yn ffocws gweithredol er gwaethaf cyfnod yr haf. Mewn ymateb, cadarnhaodd TF fod gweithgaredd cynllunio yn parhau ac ailadroddodd mai'r nod oedd sicrhau bod y sefydliad wedi paratoi ymlaen llaw ar gyfer pwysau'r gaeaf yn hytrach nag ymateb yn adweithiol yn ystod y gaeaf.

Derbyniodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y gweithgareddau cynllunio gaeaf/tymhorol.

QSIC 2026.09.10/5.6 | **Sicrwydd Ansawdd**

QSIC 2026.09.10/5.6.1 Cofrestr Risgiau Strategol

Cyflwynodd SS ddiweddariad ar Risg Strategol 3, a oedd yn canolbwyntio ar statws presennol y risg ac adolygiad manwl o'r rheolaethau a'r lliniariadau sydd ar waith o fewn y Gwasanaethau Sgrinio.

Amlygodd SS:

- Fod yr adolygiad wedi'i gynnal yn dilyn cais blaenorol gan y Pwyllgor i roi mwy o sicrwydd ynghylch priodoldeb, cymesuredd ac effeithiolrwydd y rheolaethau presennol. Roedd y gwaith wedi cynnwys trafodaethau gyda phrif ymgynghorwyr ar draws y Gwasanaethau Sgrinio ac adolygiad o ddogfennaeth ategol.
- Er bod y sgôr risg ar gyfer SR3 wedi aros yn 16, ychydig uwchlaw goddefgarwch risg y Sefydliad o 15, cynghorodd SS y disgwylid i gynnydd parhaus yn erbyn y cynllun gweithredu leihau'r risg weddilliol dros amser.
- Bod yr adolygiad wedi dangos bod mecanweithiau rheoli priodol ar waith ac wedi darparu sail gref ar gyfer adnewyddu a chryfhau rheolaethau ymhellach fel rhan o'r newidiadau sefydliadol sydd ar ddod sy'n dod â swyddogaethau Gwasanaethau Sgrinio ac Ansawdd, Nyrsio a Gwella at ei gilydd.
- Bod yr adolygiad wedi canolbwyntio'n llwyr ar elfennau Gwasanaethau Sgrinio Risg Strategol 3 a byddai angen gwaith pellach i adolygu rheolaethau gweithredol ar draws y sefydliad ehangach.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Nododd yr adolygiad manwl o reolaethau a chamau lliniaru ac ystyriodd ei fod yn rhoi mwy o welededd ynghylch sut roedd Risg Strategol 3 yn cael ei rheoli.
- Trafododd a fyddai'r cynllun gweithredu a'r rheolaethau presennol yn cyflawni'r gostyngiad sydd ei angen i gyflawni'r sgôr risg targed o 6 a nododd y bwlch sylweddol rhwng y sgôr presennol o 16 a'r sgôr targed.
- Awgrymodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys y sgôr risg cyn yr uwchgyfeirio sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad sgrinio er mwyn galluogi asesu cynnydd dros amser.
- Trafododd bwysigrwydd dangos bod rheolaethau a chamau lliniaru yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gostyngiad arfaethedig mewn risg a chyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod SR3 yn cael ei reoli'n briodol ac yn effeithiol.

QSIC 2026.09.10/5.6.2 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Cyflwynodd SS y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan nodi ei bod wedi'i hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth (LT) ar 20 Awst 2026, a oedd wedi cychwyn rhaglen o Ymchwil Manwl i Risg i gryfhau craffu ar reolaethau, trefniadau llywodraethu a meysydd sydd angen gwelliant a nododd fod y trafodaethau'n gynhyrchol ac yn rhoi gwell dealltwriaeth o reoli Risgiau Corfforaethol y Sefydliad.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- Trafododd Risg 1946 yn ymwneud â rhaglen amnewid Datix. Mynegodd yr aelodau bryder, er bod y risg yn parhau i gael sgôr o 16, fod yr adroddiad yn dangos bod LT wedi cymryd sicrwydd o'r trefniadau presennol. Cwestiynodd y

Pwyllgor a oedd y lefel sicrwydd a adroddwyd yn gyson â'r sgôr risg weddilliol uchel a cheisiodd eglurhad ynghylch y rhesymeg dros yr asesiad hwn. Esboniodd SS fod y sicrwydd yn ymwneud â hyder bod yr holl gamau lliniaru sydd ar gael yn cael eu datblygu, yn hytrach na sicrwydd bod y risg sylfaenol wedi'i datrys.

- Nododd arwyddocâd y risg a'r pryderon parhaus ynghylch cyflwyno'r system Datix newydd yn lle'r hen un a'r goblygiadau ar gyfer prosesau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau sefydliadol. Cytunodd SS i roi eglurhad pellach ynghylch asesu a chyflwyno'r risg hon.

Cam Gweithredu: SS

- Trafododd risgiau a oedd wedi aros ar agor am gyfnodau hir a gofynnodd sut yr aseswyd amlygiad cronrus ac effaith bosibl ar ddefnyddwyr gwasanaeth lle parhawyd i ymestyn dyddiadau targed. Dywedodd SS y byddai Ymchwiliadau Manwl i Risg LT yn herio'r risgiau hyn, yn adolygu effeithiolrwydd cynlluniau gweithredu ac yn sicrhau bod risgiau gweddilliol yn parhau i fod yn weladwy. Nododd ymhellach y gallai adroddiadau yn y dyfodol ddarparu mwy o eglurder ynghylch amlygiad gweddilliol a goblygiadau risgiau a oedd yn parhau heb eu datrys dros gyfnodau hir.

Cam Gweithredu: SS

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei chraffu'n briodol.

QSIC 2026.09.10/6	Eitemau i'w Nodi
--------------------------	-------------------------

QSIC 2026.09.10/6.1	Archwilio
----------------------------	------------------

Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Diweddariad y Traciwr Argymhellion Archwilio ac ystyriodd unrhyw effaith ar gynlluniau gwaith / meysydd ffocws y Pwyllgor
- Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol :
 - Achosion niferus a Llwybrau Cleifion (rhaglenni Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru ac Ymlediadau Aortig Abdomenol) - (Sicrwydd Rhesymol)
 - Rhybudd Diogelu Iechyd am ddigwyddiadau ac Achosion niferus - (Sicrwydd Rhesymol)

Nododd y Pwyllgor gau sawl cam gweithredu hirhoedlog a oedd wedi cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor a chydabu'r gwaith sylweddol a wnaed i gryfhau goruchwyliaeth o argymhellion archwilio. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod y Traciwr Argymhellion Archwilio wedi gwella gwelededd cynnydd ac wedi cefnogi monitro mwy effeithiol o gamau gweithredu sy'n weddill.

Nododd y Pwyllgor fod sawl argymhelliad wedi cymryd cryn dipyn o amser i'w cwblhau, gyda rhai camau gweithredu wedi mynd y tu hwnt i'w dyddiadau targed gwreiddiol o fwy na dwy flynedd ac un wedi cymryd bron i bedair blynedd i'w gwblhau. Er cydnabod y cynnydd a wnaed, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd dysgu o'r oedi hyn a sicrhau bod camau archwilio yn y dyfodol yn cael eu gweithredu a'u cau'n amserol.

Nododd y Pwyllgor y ddau adroddiad Archwilio Mewnol a'r Traciwr cysylltiedig yn dangos camau gweithredu sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

QSIC 2026.09.10/6.2	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
----------------------------	----------------------------------

Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor a'r newidiadau a amlygwyd a ddangoswyd mewn coch.

Rhan B

Busnes Perfformiad a Gwella'r GIG

QSIC 2026.09.10/7

Datganiad o Fuddiant

Nid oedd datganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

QSIC 2026.09.10/8

Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu Chwarterol ar Berfformiad a Gwelliant GIG Cymru (P and I) (Ch1)

Cyflwynodd SF yr Adroddiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu Chwarterol, gan dynnu sylw at:

- Nad oedd unrhyw feysydd pryder sylweddol na risgiau uwch wedi'u nodi yn ystod y cyfnod adrodd. Nodwyd ymhellach fod y Datganiad Blynyddol o Gydymffurfiaeth wedi'i gyflwyno i'r Swyddog Cyfrifol a bod trefniadau sicrwydd yn parhau ar waith, gan gynnwys darparu sicrwydd blynyddol gan uwch arweinyddiaeth.
- Bod pum digwyddiad Datix wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod adrodd, pob un yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch. Nid oedd yr un ohonynt wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer uwchgyfeirio o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR), ac roedd pob un wedi cael ei reoli drwy'r prosesau llywodraethu priodol. Roedd un digwyddiad yn parhau i fod yn destun adolygiad terfynol i sicrhau bod ymchwiliad cynhwysfawr wedi'i gwblhau.
- Bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol yn parhau ar lefel foddhaol ac yn parhau i gael ei monitro'n rheolaidd.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch adrodd ar gydymffurfiaeth hyfforddiant diogelu ac a oedd yn cynnwys gofynion diogelu lefel uwch, yn enwedig hyfforddiant yn ymwneud â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Cadarnhaodd SF fod cydymffurfiaeth ar draws modiwlau hyfforddi diogelu ar hyn o bryd yn uwch na'r safon ofynnol a chytunodd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys manylion ychwanegol ar ofynion hyfforddiant diogelu lefel uwch.

Cam Gweithredu: SF

Dywedodd SF ymhellach fod adolygiad o drefniadau diogelu a gofynion hyfforddi cysylltiedig ar y gweill yn dilyn penodiadau arweinyddiaeth diweddar o fewn Perfformiad a Gwella.

Gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

Iechyd a Diogelwch

- Cymerodd **sicrwydd** bod gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru fesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth a mynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

Cydymffurfiaeth Adrodd ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol

- **Nododd** nad oedd unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i'w hadrodd.

Cydymffurfiaeth Cwynion (gan gynnwys Gweithio i Wella (PTR) os yn berthnasol)

- **Nododd** nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

Adrodd ar hawliadau (hawliadau gan staff a thrydydd partïon)

- **Nododd** un hawliad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod a chymerwyd sicrwydd bod hawliadau o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cael eu rheoli'n briodol.

Cydymffurfiaeth DATIX

- **Nododd** bum digwyddiad a adroddwyd ar Datix ar gyfer y cyfnod hwn a chymerwyd sicrwydd bod y broses briodol wedi'i dilyn o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru i reoli'r digwyddiadau hyn.

Cydymffurfiaeth diogelu

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw faterion diogelu wedi'u hadrodd ar gyfer y cyfnod hwn i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

QSIC 2026.09.10/9	Gweinyddiaeth i Gloi
QSIC 2026.09.10/9.1	Cau'r Cyfarfod Cyhoeddus
Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 24 Tachwedd 2026	
Daeth y sesiwn agored i ben am 12:35	